# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 13-07)

**Dyddiad : 04 Tachwedd 2007**
**Amser : 8.45am**
**Lleoliad : Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Cylch gwaith:

Cylch gwaith y Pwyllgor yw:-

1. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, rhaid i'r Pwyllgor ystyried pob offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offeryn neu'r drafft ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei bod yn ymddangos bod amheuaeth a yw "intra vires";

(ii) ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano;

(iii) bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i'w wneud yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ei eithrio rhag cael ei herio yn y llysoedd;

(iv) ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn;

(v) bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol;

(vi) ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol;

(vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft;

(viii) bod yr offeryn neu'r drafft yn defnyddio iaith ryw-benodol;

(ix) nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg;

(x) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth ei gyhoeddi neu wrth ei osod gerbron y Cynulliad; neu

(xi) ei bod yn ymddangos bod oedi na ellir ei gyfiawnhau wedi bod wrth anfon hysbysiad o dan adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, (fel y'i haddaswyd).

2. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad ar unrhyw un o'r seiliau canlynol:

(i) ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath;

(ii) ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad;

(iii) ei fod yn amhriodol oherwydd newid yn yr amgylchiadau ers i'r deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud odano gael ei basio neu ei wneud ei hun;

(iv) ei fod yn rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol; neu

(v) nad yw'n gwireddu ei amcanion polisi yn berffaith.

3. Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 neu 15.3 mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft heb fod yn fwy nag 20 diwrnod ar ôl i'r offeryn neu'r drafft gael ei osod.

4. Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod o ddyddiau at ddibenion Rheol Sefydlog 15.4, rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

5. Yn ddarostyngedig i 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol hefyd a chyflwyno adroddiadau arnynt:

(i) unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a osodir gerbron y Cynulliad;

(ii) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;

(iii) canlyniadau gorchmynion drafft o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaeth a Rheoliadau 2006 ar gyfer deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i ystyriaeth yn y Cynulliad;

(iv) defnydd Gweinidogion Cymru ar bwerau cychwyn; neu

(v) unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru.

6. Ni chaiff y Pwyllgor ystyried:

(i) unrhyw orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft; na

(ii) unrhyw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft y mae'n ofynnol ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig.

### Aelodau:

Aelodau presennol y Pwyllgor yw:
Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd)
Eleanor Burnham AC
Andrew RT Davies AC
Alun Davies AC
Paul Davies AC
Irene James AC
Sandy Mewies AC
Janet Ryder AC
Karen Sinclair AC

### Cynghorwyr Cyfreithiol:

Gwyn Griffiths
Joanest Jackson

### Y Tîm Clercod:
### Clerc y Pwyllgor:

Chris Reading

### Dirprwy Glerc y Pwyllgor :

Olga Lewis

### Swyddogion Cymorth Gweinyddol :

Hasera Khan
Runa Haque

### Sut i gysylltu â ni:

Os hoffech ddod i gyfarfod Pwyllgor y Cynulliad, mae angen archebu sedd ymlaen llaw, naill ai drwy ffonio: **Llinell Archebu'r Cynulliad: 029 2089 8477** Neu drwy anfon e-bost i archebu@cymru.gsi.gov.uk Gallwch gysylltu â'r pwyllgor drwy anfon e-bost i: Legislation.comm@wales.gsi.gov.uk **Neu gallwch siarad â Chris Reading, y Clerc ar 029 2089 8164**.

### CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 4 Rhagfyr 2007. Yr oedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, A

ndrew RT Davies AC, Alun Davies AC, Paul Davies AC, Irene James AC, Sandy Mewies AC, Janet Ryder AC, Karen Sinclair AC. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**
**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

### SLC79 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 22 Tachwedd 2007. Fe'i gosodwyd ar 23Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 18 Rhagfyr 2007.

### SLC81 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 26 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 27 Rhagfyr 2007.

### SLC82 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Diwygio) (Cymru) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 27 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 27 Rhagfyr 2007.

### SLC83 - Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 27 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 19 Rhagfyr 2007.

### SLC84 - Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 27 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 29 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 23 Rhagfyr 2007.

Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2
Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC75 - Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2007**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 13 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 14 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar: at ddibenion rheoliadau 5, 7 a 14(3) - 1 Awst 2008; at bob diben arall - 6 Rhagfyr 2007.

### SLC77 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 19 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 21 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 14 Rhagfyr 2007.

### SLC78 - The Export and Movement Restrictions (Foot-and-Mouth Disease) (Wales) Regulations 2007 (Gwna"ed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig)
"

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed am 6.10 p.m. ar 20 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 21 Tachwedd 2007. Yn dod i rym am 6.25 p.m. ar 20 Tachwedd 2007.

### SLC80 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 22 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 23 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 18 Rhagfyr 2007.

Ceir Adroddiadau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar Offerynnau Statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiadau 1, 2, 3 a 4. Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
4 Rhagfyr 2007

# Atodiad 1

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
## (SLC(3) 12-07)

### SLC75

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol**

### Teitl: Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005 ac yn ailddeddfu, neu'n ailddeddfu gyda diwygiadau, ddarpariaethau a gynhwyswyd yn y Rheoliadau hynny. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 1935/2004 ynglŷn â deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

Maent hefyd yn darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2023/2006 ynglŷn ag arfer gweithgynhyrchu da ar gyfer deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC, sydd yn ymwneud â deunyddiau ac eitemau sydd wedi eu gwneud a gaen cellwlog atgynyrchiedig ac y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd. Gweithdrefn: **Negyddol** 1. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys esiamplau o iaith rhyw-benodol yn rheoliadau 19(3)(c) ("him") a 19(4) ("his") [Rheol Sefydlog 15.2(viii)] 2. Mae Rheoliad 19 (ac 20) hefyd yn cynnwys nifer o esiamplau o'r defnydd o "will" mewn perthynas â swyddogaeth y swyddog awdurdodedig. Os mai'r bwriad yw bod angen iddo ef gymryd y camau hyn, y ferf briodol yw "must". Os mai naratif syml ydyw o'r broses i'w defnyddio, nid yw'n fater priodol i'w gynnwys mewn deddfwriaeth. [Rheol Sefydlog 15.2(v)] Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd uchod a'i bod yn bwriadu cynnwys y newidiadau hyn pan

gaiff y Rheoliadau eu diwygio y tro nesaf. Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
4 Rhagfyr 2007

# Atodiad 2

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth (SLC(3)-13-07)

### SLC77

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol**

### Teitl: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007

- yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi elfennau bwyd anifeiliaid a bwyd o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 ar fwyd anifeiliaid a bwyd swyddogol. Maent yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda newidiadau y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006"). **Gweithdrefn: Negyddol** Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2 ar y sail a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol) a Rheol Sefydlog 15.2(vii) (anghysondebau rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg):

Yn nhestun Saesneg rheoliad 2(1), mae'r diffiniad o "feed authority" yn cyfeirio at yr awdurdod y mae'n ofynnol o dan adran 67(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 iddo orfodi'r Ddeddf honno o fewn ei ardal neu ddosbarth yn ôl y digwydd. Mae Adran 67(1) yn cyfeirio at Loegr; mewn perthynas â Chymru mae'r cyfeiriad cywir at adran 67(1A). [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]
Mae testun Saesneg rheoliad 2(4)(a) yn cyfeirio at adran 2 a 7 o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984. Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at adran 2 yn unig. O gofio bod adran 7 yn cyfeirio at awdurdod iechyd porthladd Llundain ac na wnaethpwyd unrhyw gyfeiriad at adran 7 yn Rheoliadau 2006 fe fyddai'n ymddangos fod y cyfeiriad at adran 7 yn wallus. [Standing Order 15.2(vi)]
Mae testun Saesneg rheoliad 3(4) yn cyfeirio at "the food authority" tra mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at"yr awdurdod bwyd anifeiiad" ("the feed authority)". Gan fod y ddarpariaeth hon yn ymwneud â dynodiad awdurdod fel awdurdod cymwys mewn perthynas â chyfraith bwyd perthnasol, tybir fod y testun Saesneg yn gywir. [Rheol Sefydlog 15.2(vi) a (vii)]
Mae testun Saesneg rheoliad 3(5) yn ymdrin â dynodiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd fel awdurdod cymwys yn unol ag Erthygl 31 o Reoliad 882/2004 a bod dynodiad yn ymestyn yn unig i "weithrediadau" cysylltiedig y mae'r Asiantaeth yn gweithredu ac yn gorfodi'r Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mae'r testun Cymraeg yn cynnwys cyfeiriad at "gynhyrchu sylfaenol a'r gweithrediadau cysylltiedig". [Rheol Sefydlog 15.2(vii)].
Mae Rheoliad 20 yn nodi cosbau. Mae Paragraff (1) y testun Saesneg yn cyfeirio at "baragraff (8) rheoliad 18" ac mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "y Rhan hon o'r Rheoliadau". [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]
Mae testun Saesneg rheoliad 27(1)(a) yn gwahardd cyflwyno i Gymru fwyd anifeiliaid penodol sy'n methu cydymffurfio gyda "Gofynion diogelwch bwyd anifeiliaid". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "ofynion diogelwch bwyd anifeiliaid" ond hefyd mae'n cynnwys geiriau sy'n cyfateb i "and those requirements"("a'r gofynion hynny") [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]
Mae Rheoliad 30(1) yn darparu bod rhaid i swyddog awdurdodedig awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad pan fydd yn bwriadu gosod llwyth o fwyd anifeiliaid neu fwyd yng nghadw yn swyddogol. Mae'r testun Cymraeg yn cynnwys darpariaeth bod yn rhaid i'r swyddog awdurdodedig yn gyntaf glywed gan y gweithredydd; nid yw'r testun Saesneg yn cyfeirio at y gofyniad hwn. [Rheol Sefydlog 15,2(vii)]
Lle mae testun Cymraeg rheoliad 33(1) yn cyfeirio at weithred sydd i'w chyflawni gan Weinidogion Cymru dylai'r gair "ganddynt" gael ei ddefnyddio yn lle "ganddo". [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]
Mae testun Cymraeg rheoliad 27(a) a (b) yn cyfeirio at "ardal neu ddosbarth" awdurdod bwyd; mae'r testun Saesneg yn cyfeirio'n unig at "ardal" awdurdod bwyd. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]
Mae Rheoliad 39 yn ymdrin â throseddau a chosbau. Mae Paragraff 1 yn nodi pedwar achos lle mae person yn euog o drosedd. Mae'r testun Cymraeg yn hepgor y paragraffau a enwir (c) a (d) yn y testun Saesneg. [Rheol Sefydlog 15.2(vi) a (vii)]
Mae Paragraff (2) o reoliad 39 yn darparu fod person sy'n euog o drosedd "o dan y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn…" tra bo'r testun Cymraeg yn cyfeirio at berson "sy'n euog o drosedd o dan y Darpariaethau Mewnforio…". [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]
Yn Atodlen 1 mae'r testun Cymraeg mewn perthynas â Rheoliad 852/2004 yn hepgor geiriad sy'n cyfateb i "as read with Regulation 2073/2005. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]
Mae testun Cymraeg o Atodlen 4 wedi'i osod allan mewn tair colofn ac felly nid yw'n cyd-fynd â geiriad rheoliad 3(1) sy'n cyflwyno'r Atodlen hon. Ymhellach mae'r testun Cymraeg sy'n nodi darpariaethau Rheoliad 882/2004 y mae'r Asiantaeth wedi'i dynodi mewn perthynas â hwy yn hepgor cyfeiriad at erthyglau 27 a 28. Yn yr un modd mae'r ddarpariaeth y mae'r awdurdod bwyd anifeiliaid wedi'i ddynodi mewn perthynas â hi yn hepgor cyfeiriad at erthyglau 27 a 28.
Mae testun Cymraeg o Atodlen 5 wedi'i osod allan mewn tair colofn ac felly nid yw'n cyd-fynd â geiriad rheoliad 3(3) sy'n cyflwyno'r Atodlen hon. Ymhellach mae'r eitemau sy'n nodi darpariaethau Rheoliad 882/2004 mewn perthynas â'r rhai mae'r Asiantaeth wedi'i dynodi yn awdurdod cymwys yn hepgor cyfeiriad at Erthyglau 27 a 28 ac mae'n cyfeirio at Erthygl 31`(1) a (2) tra mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at Erthygl 31. Yn yr un modd, gyda'r darpariaethau mewn perthynas â'r rhai mae'r awdurdod bwyd wedi'i ddynodi, mae'r testun Cymraeg yn hepgor y cyfeiriad at Erthyglau 27 a 28. [Rheol Sefydlog 15.2(vi) a (vii)]

Mae'r cyfreithiwr oedd yn drafftio wedi'i hysbysu am nifer o gamgymeriadau sydd i'w gweld yn y troednodiadau. Gellir cywiro'r rhain wrth gyhoeddi. Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â'r gofyn i gydymffurfio â deddfwriaeth bwyd anifeiliaid a deddfwriaeth bwyd (p'un ai ei bod yn ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu'n ddeddfwriaeth y wlad hon) ac ag amgylchiadau ble y gall person fod yn rhan o weithdrefnau cyfreithiol. O gofio fod llawer o'r pwyntiau cofnodi a nodwyd yn gysylltiedig â darpariaethau mewn perthynas â chydymffurfio neu orfodi efallai y bydd y Llywodraeth yn dymuno ystyried dirymu ac ail wneud y Rheoliadau hyn. Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad a bydd yn cymryd camau i gyhoeddi Rheoliadau newydd yn 2008, a fydd yn cymryd lle Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007. Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
4 Rhagfyr 2007

# Atodiad 3

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
## (SLC(3) 13-07)

**SLC78**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**O1 dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**

### Teitl: Rheoliadau ar y Cyfyngiadau Allforio a Symud (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) 2007

-gweithredu yng Nghymru Benderfyniad y Comisiwn rhif 2007/746/EC sy'n addasu ymhellach Benderfyniadau'r Comisiwn 2007/709/EC, 2007/746/EC a 2007/554/EC. Mewn perthynas â Chymru, prif effaith y Rheoliadau yw na fydd Cymru mwyach o dan gyfyngiad i symud ac allforio cynnyrch anifeiliaid yn cynnwys plasm cenhedlu. Er bod allforio anifeiliaid byw yn parhau dan waharddiad bydd mewnforio anifeiliaid byw yn cael ei ganiatau a bydd symud anifeiliaid a chynnyrch anifeiliaid rhwng mannau a restrir yn cael ei ganiatáu o dan amodau penodol. Gwnaed y Rheoliadau a daethant i rym ar 20 Tachwedd 2007 ar yr amseroedd a nodir yn y Rheoliadau. Mae Rheoliadau 5 i 9 (sy'n ymwneud ag allforio cig, cynnyrch cig a llaeth) a rheoliadau 11 i 14 (sy'n ymwneud ag allforio lledr a chrwyn, cynnyrch anifeiliaid, eithrio a gorfodi dogfennau) yn peidio bod â grym ar 15 Rhagfyr 2007; mae gweddill y Rheoliadau yn peidio bod â grym ar 31 Rhagfyr 2007. Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) (Cymru) (Rhif 6) 2007 wedi'u dirymu. **Gweithdrefn:** Negyddol Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn ar y sail a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(ix) (nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg). Cynghorwyd y Llywydd, oherwydd hyd y Rheoliadau a'r angen i'w cyflwyno yng Nghymru ar unwaith, y credai'r Gweinidog dros Faterion Gwledig na fyddai'n rhesymol ymarferol iddynt gael eu gwneud yn ddwyieithog mewn da bryd ond y byddai cyfieithiad Cymraeg ar gael maes o law. Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
4 Rhagfyr 2007

# Atodiad 4

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
## (SLC(3)-13-07)

**SLC80**

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**

### Teitl: Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd Arolygu Mewnforio) (Cymru) (Rhif 2) 2006 ("y prif Reoliadau"). Mae'r prif Reoliadau yn rhoi ar waith Erthygl 13d o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau godi ffioedd i dalu'r costau sy'n digwydd oherwydd gwiriadau dogfennol, gwiriadau adnabod a gwiriadau iechyd planhigion ar fewnforion penodol o ran planhigion, cynhyrchion planhigion a phethau eraill o drydydd gwledydd. **Gweithdrefn:** Negyddol 1. Gwnaed y prif Reoliadau gan ddibynnu ar adran 29(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ogystal ag Adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973. Mae adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi cymryd lle Adran 29 o Ddeddf 1998, felly dylai adran 59(5) o Ddeddf 2006 fod wedi ei dyfynnu fel pŵer i ddibynnu arni i wneud y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, gan fod y pŵer yn bodoli, er na chafodd ei ddyfynnu, nid oes angen gwneud unrhyw waith adfer. Mae'r troednodyn o gymorth o ran arwain y darllenydd i 'r ddarpariaeth berthnasol. [Rheol Sefydlog 15.2(v)] 2. Mae testun Saesneg y rheoliad 3(a) newydd yn cynnwys y geiriau "Schedule 1 that are listed in" nad ydynt yn ymddangos yn y testun Cymraeg. Yr Atodlen 1 y cyfeirir ati yw honno yn y prif Reoliadau, ond mae absenoldeb y geiriau cyfeiriwyd yn rhoi'r ystyr anghywir i'r testun Cymraeg, sef colofn gyntaf Atodiad V, Rhan B y Gyfarwyddeb. Mae angen datrys y croesgyfeiriad anghyson cyn gynted â phosibl. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)] Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y

pwynt adrodd a grybwyllwyd uchod ac mae hefyd wedi nodi ei bod yn disgwyl y bydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio yn gynnar yn 2008. Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
4 Rhagfyr 2007